# Y Contract Darlledu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Medi 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 15 Awst.  Gallaf ddarparu'r wybodaeth ganlynol i chi:

1. *Allwch chi ddarparu manylion am bwy sy'n meddu ar y contract i ddarlledu trafodion yn y Cynulliad?*

Cyhoeddir y wybodaeth ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma'r linc: http://www.cynulliadcymru.org/gethome/abt-procurement.htm

2. *Allwch chi ddarparu manylion o ran pryd y dyfarnwyd y contract hwn, pryd y disgwylir iddo ddod i ben, a rhoi manylion am unrhyw opsiynau o ran ymestyn y contract?*

Dyfarnwyd y contract ar 25/05/2010.  Cyhoeddir y dyddiad dod i ben ac opsiynau o ran ymestyn ar ein gwefan. Gweler y linc yn yr ateb i gwestiwn 1.

3. *Allwch chi ddarparu manylion am beth yw gwerth cyffredinol y contract, y swm a delir bob blwyddyn ers ei ddyfarnu a gwerth dros oes y contract?*

Cyhoeddir gwerth cyffredinol y contract a'r gwerth dros oes y contract ar ein gwefan.  Gweler y linc yn yr ateb i gwestiwn 1.

Gweler y swm a delir bob blwyddyn isod. Mae'r ffigurau'n cynnwys adnewyddu offer:

| | |
|---|---|
| 2010/11 | £374,078 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| | |
|---|---|
| 2011/12 | £1,010,510 |
| 2012/13 | £599,770 |
| 2013/14 | £1,083,812 |

4. *Allwch chi ddarparu manylion am sawl gwaith yr hysbysebwyd y contract hwn a phwy a'i henillodd bob tro?*

Cafodd y contract ei hysbysebu dair gwaith a chafodd ei ddyfarnu i Barcud Derwen Cyfyngedig ddwywaith a Bow Tie Television Ltd unwaith.

5. *Allwch chi ddarparu manylion am y gost fesul uned i ddarlledu 1 awr neu 1 sesiwn ym mhob un o'r lleoliadau canlynol: Siambr ac ystafell bwyllgora?*

Er bod gennym y wybodaeth hon, rydym yn ystyried bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 43(2) o'r Ddeddf. Gellir gweld rhesymau pellach dros y penderfyniad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

6. *Allwch chi ddarparu manylion am ystod y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y contract hwn?*

Manylion am ystod y gwasanaethau:

- Cynhyrchu ffrwd sain a llun o holl drafodion y Cynulliad ar gyfer eu darlledu gan ddarlledwyr allanol.
- Gwasanaethau ffrydio ar y we sy'n darparu mynediad byw ac archif i drafodion y Cynulliad.
- Archif ddigidol o ddeunydd darlledu.
- Cynnal a chadw offer darlledu a chlyweled.
- Atgyweirio ac ailosod offer os bydd yn torri.
- Adnewyddu seilwaith darlledu yn dechnegol yn ôl gofynion y cleient.

7. *Allwch chi ddarparu manylion am unrhyw wybodaeth TUPE sy'n berthnasol i'r contract hwn, fel rhwymedigaethau'r contractwr presennol?*

Mae TUPE yn berthnasol pan fydd newid cyflenwr. Mae'n ymwneud â'r broses o drosglwyddo o'r hen gyflenwr i'r cyflenwr newydd. Nid yw'n fater i ni fel y cwsmer. Felly, nid oes gennym unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.

8. *Allwch chi ddarparu unrhyw ddogfennau mewnol ynghylch ansawdd y gwasanaeth?*

Nid oes gennym wybodaeth yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.

9. *Allwch chi ddarparu rhestr o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'r gwasanaeth a ddarperir o fewn y contract hwn? Hefyd, pa fesurau rheoli ansawdd eraill sydd ar waith i werthuso'r gwasanaeth a ddarperir o fewn y contract hwn? Sut a pha mor aml y caiff ei fesur?*

Nid ydym yn gosod dangosyddion perfformiad allweddol ffurfiol ar gyfer y gwasanaeth. Caiff mesurau rheoli ansawdd penodol eu trafod yn anffurfiol mewn cyfarfodydd gweithredol wythnosol gyda staff deiliad y contract a chyfarfodydd rheoli contract misol gydag uwch swyddogion y cwmni.

10. *Rhowch unrhyw fanylion o'r 12 mis diwethaf ynghylch unrhyw faterion rheoli ansawdd mewn cysylltiad â'r contract hwn.*

Er bod gennym y wybodaeth hon, rydym yn ystyried bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 43(2) o'r Ddeddf. Gellir gweld rhesymau pellach dros y penderfyniad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

11. *Rhowch fanylion am unrhyw wneuthuriad a modelau yr offer y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu darparu ar gyfer y contractwr darlledu er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Nodwch hefyd y flwyddyn y cafodd yr offer ei gaffael a'i osod.*

Mae'r ddogfen PDF atodedig yn rhoi manylion i chi yn ymwneud â'r cwestiwn hwn.

12. *Rhowch fanylion am yr holl waith cynnal a chadw a wnaed gyda'r pris a dalwyd mewn cysylltiad â'r contract darlledu yn ystod y 4 blynedd diwethaf.*

Cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw a wnaed gan Bow Tie dros y 4 blynedd diwethaf yw £185,737.

Er bod gennym y wybodaeth am yr holl waith cynnal a chadw a'r pris a dalwyd, rydym yn ystyried bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 43(2) o'r Ddeddf. Gellir gweld rhesymau pellach dros y penderfyniad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

13. *Rhowch unrhyw fanylion am unrhyw brosiectau adnewyddu cyfalaf ac ailosod offer y mae'r Cynulliad wedi'i wneud mewn cysylltiad â seilwaith darlledu.*

Cyfanswm yr holl waith adnewyddu cyfalaf a phrosiect yn ymwneud â seilwaith darlledu dros y 4 blynedd diwethaf yw £1,394,828.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio rhag datgelu unrhyw wybodaeth a 'fyddai, neu a fyddai'n debygol, o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei ddal).'

Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'unrhyw berson' yw Comisiwn y Cynulliad a darlledwr presennol y Cynulliad - Bow Tie Television Ltd ('Bow Tie'). Y bwriad y tu ôl i'r eithriad yw atal datgelu gwybodaeth a allai achosi niwed i fuddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu sefydliad, fel eu gallu i gymryd rhan gystadleuol mewn gweithgarwch masnachol.

Ar ôl cael barn Bow Tie, ac ar ôl ystyried ystyriaethau ynghylch ein sefyllfa ein hunain, rydym yn fodlon pe byddai'r wybodaeth yn cael ei rhyddhau y bydd yn debygol y byddai'n achosi niwed sylweddol i fuddiannau masnachol y Cynulliad a Bow Tie.

Yn benodol, byddai rhyddhau'r pris cost uned a manylion am brisio gwybodaeth sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw, nad yw eisoes ar gael yn gyhoeddus, yn rhoi gwybodaeth yn gyhoeddus y mae Bow Tie o'r farn fyddai'n effeithio'n andwyol ar ei sefyllfa yn y farchnad. Byddai'r manylion yn rhoi gwybodaeth i'w gystadleuwyr a allai eu rhoi o dan fantais annheg wrth gystadlu yn erbyn Bow Tie am gontractau tebyg.

Byddai'r cais am wybodaeth am faterion rheoli ansawdd yn achosi niwed sylweddol i enw da a hyder cwsmeriaid Bow Tie.

Rydym hefyd o'r farn y byddai datgelu (i) yn debygol o effeithio'n negyddol ar ein sefyllfa o ran pwrcasu yn y dyfodol, yn enwedig gan fod gwaith i dendro am gontract newydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a (ii) gallai niweidio ein henw da mewn ffordd negyddol. Gallai hyn, yn ei dro, leihau parodrwydd ein cyflenwr presennol, ac eraill, i gystadlu am gontractau yn y dyfodol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae adran 43(2) yn amodol ar ystyried 'prawf budd cyhoeddus'. Hynny yw, er mwyn atal y wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n rhaid ein bod yn fodlon

bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy pwysig na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth.

Rydym yn ymwybodol o'r angen, lle bynnag y bo modd, i fod yn dryloyw o ran dyrannu arian cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu bod budd cyhoeddus mewn cynnal gallu cyrff cyhoeddus a chyflenwyr preifat i gontractio yn effeithiol. Byddai'n anffodus pe byddai parodrwydd gweithredwyr o'r fath i ymgysylltu â chyrff cyhoeddus yn cael ei lesteirio gan bryder y bydd y cyrff hynny yn datgelu eu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol ar chwarae bach. Rydym yn ystyried hefyd bod budd cyhoeddus mewn cynnal cystadleuaeth gywir rhwng gweithredwyr preifat.

Mae'r ffaith y bydd proses ail-dendro'r contract hwn yn cael ei chynnal yn y dyfodol agos hefyd yn ystyriaeth arwyddocaol gan y gallai rhyddhau gwybodaeth am strategaeth brisio cyflenwr roi mantais annheg i gystadleuwyr yn y broses gaffael.

I gloi, nid ydym o'r farn bod budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani yng nghwestiynau 5, 10 a 12 yn bwysicach na'r niwed tebygol a allai ddilyn yn sgil rhyddhau'r wybodaeth honno.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i’ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno’r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF